**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1013
Ein cyf/Our ref DET/03625/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deisebau

22 Rhagfyr 2020

Annwyl Janet

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Rhagfyr yn gofyn am ragor o wybodaeth am y Gronfa Gweithwyr Llawrydd a'r cymorth arall sydd ar gael i'r rhai nad ydynt yn gymwys ar gyfer y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig.

Mae'r Gronfa Gweithwyr Llawrydd wedi cael derbyniad da gan randdeiliaid a bydd wedi cefnogi tua 3,500 o weithwyr llawrydd ledled Cymru ers ei lansio ym mis Hydref. Cyflwynwyd y gronfa drwy dri cham ar wahân a daeth i ben ar 7 Rhagfyr. Roedd y gronfa'n agored i weithwyr llawrydd ar draws y sectorau diwylliannol a chreadigol, gan gynnwys y rhai y mae eu gwaith yn ymwneud â digwyddiadau y mae'r pandemig wedi effeithio'n sylweddol arnynt. Bydd rhagor o wybodaeth am y rhai sy'n derbyn cymorth drwy'r Gronfa Adferiad Diwylliannol yn cael ei chyhoeddi yn y flwyddyn newydd.

Yr ydym yn dal i bwyso ar Lywodraeth y DU i fod yn ymatebol ac yn gyfrifol o ran cefnogi'r rheini nad ydynt wedi gallu manteisio ar unrhyw gronfa hyd yma ac nad ydynt eto wedi cael cymorth sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau y gall eu mentrau oroesi'r pandemig hwn.

Yn gywir

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.